# Pwyllgor Cyswllt Ystadegol Cymru
# Cyd-bwyllgor Ymgynghorol Cenedlaethol ar Ystadegau
# Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Mehefin 2023 drwy Microsoft Teams

## Yn bresennol

| | | | |
|---|---|---|---|
| Phillip | Barlow | PB | Cyngor Sir Penfro |
| Lee | Clarke | LC | Cyngor Sir Caerdydd |
| Michael | Cole | MC | Swyddfa Ystadegau Gwladol |
| Heledd | Davis | HD | Cymen |
| Janine | Edwards | JE | Cyd-fenter Gwella Gofal Cymdeithasol a Llesiant Gogledd Cymru |
| Lloyd | Fisher | LF | Cyngor Bro Morgannwg |
| Yasmin | Friedmann | YF | Cyngor Sir Casnewydd |
| Eleri | James | EJ | Comisiynydd y Gymraeg |
| Bea | Jeffries | BJ | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf |
| Leanne | John | LJ | Cyngor Abertawe |
| Helen | Jones | HJ | Ymchwil Senedd |
| Paul | Jones | PJ | Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent |
| Mari Ann | Jones | MAJ | Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| Steve | King | SK | Cyngor Abertawe |
| Sue | Leake | SL | Llywodraeth Cymru |
| Victoria | Middleton | VM | Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| Florence | Milne | FM | Llywodraeth Cymru (Cofnodwr) |
| Geraint | Morgan | GM | Cyngor Sir Powys |
| Kay | Palmer | KP | Archwilio Cymru |
| Joshua | Parry | JP | Llywodraeth Cymru |
| Martin | Parry | MP | Llywodraeth Cymru |
| Dave | Phillips | DP | Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent |
| Jonathon | Radcliffe | JR | Chwaraeon Cymru |
| Hayley | Randall | HR | Data Cymru |
| Lesley | Rees | LR | Cyngor Sir Caerfyrddin |
| Thomas | Rose | TR | Llywodraeth Cymru |
| Cat | Singleton | CS | Llywodraeth Cymru (Cofnodwr) |
| Elaine | Smith | ES | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Sam | Sullivan | SS | Data Cymru |
| Caitlin | Theodorou | CT | Cyngor Sir Ceredigion |
| Mei-Ling | Trigg | Tîm Trwyddedu Morol | Llywodraeth Cymru |
| Sam | Voyce | Trais Rhywiol | Llywodraeth Cymru (Cofnodwr) |
| Alwyn | Williams | AW | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Megan | Williams | MW | Llywodraeth Cymru |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Lowri | Wyn Morton | LWM | Cyngor Gwynedd |
| Nia | Wyn Vaughan | NWV | Cyngor Gwynedd |

**Siaradwyr**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Steph | Howarth | SH | Llywodraeth Cymru (Cadeirydd) |
| Ben | Cooper | BC | Swyddfa Ystadegau Gwladol |
| Jo | Maimaris | KM | Swyddfa Ystadegau Gwladol |
| Hannah | Thomas | HT | Swyddfa Ystadegau Gwladol |
| Craig | Thomas | CT | Llywodraeth Cymru |
| Gerald | Williams | GW | Swyddfa Ystadegau Gwladol |
| David | Roberts | DR | Llywodraeth Cymru |
| John | Morris | JM | Llywodraeth Cymru |

**Ymddiheuriadau**

| | | |
|---|---|---|
| Gwyneth | Ayers | Cyngor Sir Caerfyrddin |
| Sioned | Cardew-Richardson | Estyn |
| Pamela | Chivers | Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot |
| Rachel | Clegg | Cyngor Sir Caerfyrddin |
| Shaun | Davies | Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot |
| Vicki | Doyle | Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili |
| Karen | Hawkes | Cyngor Sir Ddinbych |
| Chris | Llewelyn | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| Steven | Marshall | Llywodraeth Cymru |

| **1** | **Croeso, Cyflwyniad ac Ymddiheuriadau** – Steph Howarth, Llywodraeth Cymru | Camau gweithredu |
|---|---|---|
| | Croesawodd SH bawb. Gweler yr ymddiheuriadau uchod.<br><br>Mae cyfieithu ar y pryd wedi cael ei ddarparu.<br><br>Ni fwriedir trafod yr eitem ar amcangyfrifon poblogaeth yn y cyfarfod hwn oherwydd yr oedi cyn eu cyhoeddi. | |
| **2** | **Nodyn o'r cyfarfod diwethaf, diweddariad ar bwyntiau gweithredu, diweddariad chwarterol Ystadegau Cymru, diweddariad ar ddemograffeg a diweddariad Data Cymru** – Steph Howarth, Llywodraeth Cymru | |
| | **Nodyn o'r cyfarfod diwethaf**<br>Nid oedd unrhyw sylwadau ar gofnodion y cyfarfod diwethaf.<br><br>**Diweddariad ar y pwyntiau gweithredu**<br>• Cam gweithredu 1 – Nododd SH fod gofal sylfaenol ar yr agenda heddiw a bod MALIC yn debygol o gael ei gynnwys ar agenda'r cyfarfod nesaf.<br>• Cam gweithredu 6 – Dywedodd HR y cytunwyd ar ychwanegiad i'r contract yn caniatáu i ALlau neu aelodau o gonsortia rannu data â | |

| | | |
|---|---|---|
| | chydweithwyr yn y sector cyhoeddus pan oedd hynny'n briodol.<br>• Cam gweithredu 7 – Dywedodd SH nad yw'r adnodd Asesiadau o'r Farchnad Dai Leol yn pennu'r data y dylid eu defnyddio, felly cyfrifoldeb ALlau yw dod o hyd i ffynhonnell briodol o ddata. Efallai y bydd yr ystadegau incwm gweinyddol arbrofol yn addas, ond am eu bod yn arbrofol, dylai eu hansawdd gael ei asesu at y diben hwn.<br>• Nid yw data Rightmove ar gael i Lywodraeth Cymru hyd y gwyddom.<br>• Mae Camau gweithredu 1, 3, 4, 8 a 9 wedi cael eu cau.<br><br>**Diweddariad chwarterol Ystadegau Cymru**<br>Tynnodd SH sylw at nifer o eitemau a nodwyd ym mhapur y diweddariad chwarterol. Mynegwyd diddordeb mewn clywed mwy am yr Arolwg o'r Llafurlu wedi'i drawsnewid mewn cyfarfod yn y dyfodol.<br><br>**Diweddariad ar ddemograffeg**<br>Nodwyd yr oedi cyn cyhoeddi amcangyfrifon canol blwyddyn, ac y byddent yn cael eu cyhoeddi ym mis Medi bellach.<br><br>**Diweddariad Data Cymru**<br>Tynnodd HR sylw at eitemau ym mhapur diweddaru Data Cymru. Canmolodd LR Data Cymru am y gwaith a wnaed ganddo am fod hynny wedi arbed llawer o amser i gydweithwyr mewn ALlau. Gofynnodd LWM i Data Cymru rannu ei waith arfaethedig yn fwy rheolaidd er mwyn osgoi dyblygu posibl. | Yr Ysgrifenyddiaeth i ystyried cynnwys yr arolwg o'r llafurlu wedi'i drawsnewid fel eitem yn yr agenda yn y dyfodol. |
| **3** | **Hygyrchedd Taenlenni** – Hannah Thomas, Swyddfa Ystadegau Gwladol | |
| | Gwnaeth HT, er iddi nodi bod Llywodraeth Cymru wedi gwneud cynnydd da o ran gwneud taenlenni yn fwy hygyrch, ddangos sut i wella hygyrchedd taenlenni drwy fynd drwy nifer o enghreifftiau gan Lywodraeth Cymru. Roedd y cyngor yn cynnwys:<br>• Peidio â thanlinellu testun.<br>• Defnyddio hyperdolenni URL yn hytrach nag ysgrifennu pethau'n llawn.<br>• Rhoi disgrifiad o'r hyn sydd yn y daenlen (e.e., faint o dablau a'u diwyg).<br>• Marcio tablau'n gywir.<br>• Cadw at safonau cyflwyno, fel alinio rhifau ar y dde.<br>• Peidio â dibynnu ar liw yn unig i gyfleu gwybodaeth.<br>• Defnyddio llawfer gyson<br><br>Gofynnodd JR a oes unrhyw ganllawiau ar baratoi tablau yn PowerBI. Atebodd HT fod hygyrchedd PowerBI yn wael ar y cyfan. Fel rhan o fis Dadansoddi mewn Llywodraeth, cynhaliwyd sesiwn lle y rhoddwyd prawf ar ddangosfyrddau â darllenwyr sgrin er mwyn nodi gwelliannau. Gall analysis.function@ons.gov.uk ddarparu rhagor o wybodaeth am unrhyw sesiynau yn y dyfodol.<br>Gall yr aelodau gysylltu â analysis.function@ons.gov.uk os hoffent gael rhagor o wybodaeth.<br><br>Dolenni i ragor o wybodaeth:<br>Cyhoeddi ystadegau mewn taenlenni | |

| | | |
|---|---|---|
| | Rhestr wirio ar gyfer gwneud taenlenni yn hygyrch<br>Adnoddau i'w defnyddio ar y cyd â'n canllawiau ar gyhoeddi ystadegau mewn taenlenni<br>Empathi hygyrchedd ar gyfer taenlenni<br>Cyngor ar ddefnyddio symbolau a llawfer | |
| **4** | **Ystadegau Gofal Iechyd Sylfaenol** – Craig Thomas, Llywodraeth Cymru | |
| | Rhoddodd CT y diweddaraf ar y gwaith sydd wedi cael ei wneud ar ddadansoddi gofal iechyd sylfaenol drwy ddefnyddio clystyrau iechyd sylfaenol, gan gynnwys eu cysylltu â MALIC.<br><br>Ers amser maith, yr unig gyhoeddiad a oedd ar gael ar lefel clystyrau oedd y cofrestrau clefydau o dan y FfSAG. Mae'r FfSAG yn rhoi cymhelliant i feddygon teulu gadw cofnodion ar gleifion gyda rhestr o 18 o gyflyrau gwahanol.<br><br>Soniodd CT am yr heriau methodolegol sy'n gysylltiedig â defnyddio clystyrau fel daearyddiaeth ddadansoddi, a thrafododd hefyd y dulliau sy'n cael eu defnyddio i fesur amddifadedd clystyrau gofal sylfaenol. Cyflwynodd CT ganlyniadau ychydig o'r gwaith dadansoddi hwn.<br><br>Gan edrych ymlaen, hoffai CT a'r tîm gyhoeddi rhagor o ddata ar lefel clwstwr ac, o bosibl, ar lefel contractwyr gofal sylfaenol sy'n dangos amrywiaeth ehangach o weithgarwch ym maes ymarfer cyffredinol.<br><br>Gofynnodd JE a oedd unrhyw waith yn mynd rhagddo i wella gweithgarwch dadansoddi sy'n ymwneud â chlystyrau gofal cymdeithasol ac iechyd sylfaenol. Atebodd CT mai megis dechrau mae'r gwaith o ddadansoddi data ar lefel clwstwr a'i bod yn barod i ystyried pa bynciau eraill a fyddai'n ddefnyddiol.<br><br>Dolenni i wybodaeth a gyflwynwyd gan CT:<br>Poblogaeth a gweithlu clwstwr practisau cyffredinol a gofal sylfaenol yn ôl amddifadedd<br>Cofrestrau clefydau – StatsCymru<br>Presgripsiynu – StatsCymru | |
| **5** | **Ystadegau'r Cyfrifiad ac Ystadegau Poblogaeth** - Gerald Williams, Jo Maimaris, Ben Cooper a Justine McNally, Swyddfa Ystadegau Gwladol | |
| | **Cyfrifiad 2021**<br><br>Disgrifiodd GW a JM y gweithgarwch diweddar ar y cyfrifiad, gan gynnwys:<br>• Y cyhoeddiad amlamryweb diweddar, gan gynnwys yr adnodd creu set ddata arbennig, setiau data a ragadeiladwyd ac adroddiadau ar ddadansoddiadau.<br>• Gwnaeth GW arddangos yr adnodd creu set ddata arbennig. Croesewir adborth ar yr adnodd creu set ddata arbennig. E-bostiwch: census.customer.services@ons.gov.uk<br>• Rhagor o gynlluniau dadansoddi a chyhoeddiadau ynglŷn â'r | Gofynnodd GW i dîm daearyddiaeth y SYG roi diweddariad ar statws y dosbarthiad gwledig/trefol ac ar ddaearyddiaethau |

| | | |
|---|---|---|
| | cyfrifiad. Gellir rhoi adborth ac anghenion defnyddwyr er mwyn llywio cynlluniau dadansoddi yn y dyfodol.<br><br>Holwyd ynglŷn â'r canlynol:<br>• Argaeledd data i awdurdodau lleol heb gynnwys ardaloedd Parc Cenedlaethol<br>• Data ar lefel plwyf a chymuned<br>• Eglurder ynghylch a fyddai data ar gael o Nomis neu'r adnodd creu set ddata arbennig.<br>• Dosbarthiadau gwledig a threfol, ac ardaloedd adeiledig.<br><br>Ni ellid ateb y cwestiwn ynglŷn â dosbarthiadau gwledig a threfol ac ardaloedd adeiledig yn y cyfarfod felly nodwyd bod angen rhoi ateb dilynol fel pwynt gweithredu.<br><br>**Ymgynghoriad arfaethedig y SYG ar ystadegau poblogaeth a mudo**<br><br>Soniodd BC am gynlluniau arfaethedig y SYG o ran ei hymgynghoriad ar ystadegau poblogaeth a mudo:<br>• Bydd yr ymgynghoriad yn agor ar 29 Mehefin a bydd ar agor am bedwar mis.<br>• Mae dau ddigwyddiad lansio wedi cael eu trefnu – un yng Nghaerdydd ar 6 Gorffennaf ac un yn Llundain. Mae'n bosibl cymryd rhan ar-lein neu'n bersonol a bydd cyfieithu ar y pryd ar gael.<br>• Bydd cyfres o weminarau yn cael ei chynnal drwy gydol wythnosau cyntaf mis Gorffennaf er mwyn cyflwyno'r ymchwil.<br><br>Yn y drafodaeth ddilynol trafodwyd y canlynol:<br>• Y dystiolaeth y disgwylir y caiff ei chyhoeddi rhwng nawr a lansio'r ymgynghoriad<br>• Ffynonellau o ddata gweinyddol ar allu yn y Gymraeg.<br><br>Roedd aelodau o'r grŵp yn awyddus i gael trafodaeth gychwynnol ar yr ymgynghoriad ym mis Gorffennaf, yn ogystal â chynnwys eitem ar agenda Pwyllgor Cyswllt Ystadegol Cymru ym mis Hydref. Gwnaeth SH annog yr aelodau i ymateb i'r ymgynghoriad a'i hyrwyddo yn eu rhwydweithiau. Mae croeso hefyd i'r aelodau rannu eu hymateb â Llywodraeth Cymru fel y gellir deall anghenion yng Nghymru.<br><br>Holodd LWM am argaeledd data ar danwydd tlodi ar lefel daearyddiaeth sy'n llai nag awdurdod lleol. Dywedodd SH y gellir rhoi diweddariad ysgrifenedig ar hyn. | sy'n ardaloedd adeiledig.<br><br>Yr Ysgrifenyddiaeth i drefnu sesiwn drafod ym mis Gorffennaf ar yr ymgynghoriad ar ddyfodol ystadegau poblogaeth.<br><br>Yr Ysgrifenyddiaeth i ychwanegu'r ymgynghoriad ar ystadegau poblogaeth ar agenda mis Hydref.<br><br>SH i roi diweddariad ar argaeledd data ar danwydd tlodi ar lefel |

| | | |
|---|---|---|
| | | daearyddiaethau bach. |
| **6** | **Sesiwn Fanwl ar Ddaearyddiaethau** – Dave Roberts a John Morris, Llywodraeth Cymru | |
| | Sesiwn ryngweithiol ar ddaearyddiaethau oedd sesiwn y prynhawn, a oedd yn cynnwys nifer o sesiynau trafod unigol.<br><br>**Rhan 1: Enwau AGEHI**<br>Soniodd JM am gefndir enwau AGEHI a pholisïau enwi daearyddiaethau. Mae Llywodraeth Cymru a Thŷ'r Cyffredin wedi llunio enwau ar gyfer rhai daearyddiaethau ystadegol (e.e., ACEHIau, ACEHGau) ond nid ydynt wedi cael eu mabwysiadu'n ffurfiol gan y SYG.<br><br>Nododd JM fod y cyfrifiad diweddaraf wedi arwain at newidiadau i rai daearyddiaethau ystadegol sy'n golygu bod angen ailystyried yr enwau hyn. Cyflwynodd gynnig i wneud hyn.<br><br>• Os bydd ffin yr AGEHI yr un fath â'r ward, dylid mabwysiadu enw'r ward.<br>• Os bydd yr AGEHI yn gyfuniad o wardiau, dylid cyfuno enwau'r wardiau (A a B).<br>• Os bydd yr AGEHI wedi'i rhannu ar draws wardiau, yna dylid darparu enw rhannol â chysylltnod (e.e., Ward - De).<br>• Os na fydd yr uchod yn bosibl, yna dylid darparu enw sy'n adnabyddadwy i'r gymuned leol ac nad yw'n debyg i enw'r ward.<br><br>Gofynnwyd i'r grwpiau trafod unigol:<br>• A yw'r dull pedwar cam yn ymddangos yn rhesymol?<br>• Gyda phwy y dylid ymgynghori? Pwy fyddai'n gwneud hynny? Dylem ddefnyddio adnodd ymgynghori MapDataCymru.<br>• Faint o amser y byddai hyn yn ei gymryd?<br><br>Adborth o'r ystafelloedd trafod:<br>• Ystyriwyd bod y dull gweithredu yn rhesymol ond nodwyd bod yr adnoddau i ymgymryd ag ef yn rhwystr posibl.<br>• Efallai na fydd disgrifyddion fel gogledd/de yn gweithio bob amser – efallai y bydd rhifau yn gweithio'n well mewn rhai achosion.<br>• Cydnabuwyd y bydd diddordeb ymhlith cynghorwyr lleol a chymuned, ac y dylent gael eu cynnwys yn y gwaith hwn. Ond nodwyd y risg o wleidyddoli a phwysigrwydd mabwysiadu dull safonol o benderfynu ar enwau (er mwyn lleihau cyfleoedd i "lobïo").<br>• Soniodd SH am amseriad y diweddariad nesaf i MALIC fel rhywbeth a allai roi terfyn amser ar gyfer y gwaith hwn.<br>• Dywedodd JM fod angen bod yn dryloyw ynglŷn â'r hyn rydym yn ei wneud a sicrhau ein bod yn creu rhywbeth sy'n cael ei ddiogelu at y dyfodol. Bydd JM yn rhannu papur yn rhoi gwybodaeth, cynigion a thaenlenni data.<br>• Gofynnodd NWM hefyd a yw cynghorau cymuned yn gyfredol ar MapDataCymru. Atebodd DR eu bod yn cael eu diweddaru.<br><br>**Rhan 2: Adolygu'r daearyddiaethau presennol** | |

| | | |
|---|---|---|
| | Gofynnwyd i'r grŵp ystyried pa ddaearyddiaethau eraill a ddefnyddir ganddynt ac a oes unrhyw anghenion heb eu diwallu.<br><br>Cwestiynau i'r ystafelloedd trafod:<br>- A oes unrhyw ddaearyddiaeth ar y rhestr swyddogol nad ydych yn ei defnyddio?<br>- A oes unrhyw ddaearyddiaeth sydd ar goll yn eich barn chi?<br>- A fyddai rhanbarthau economaidd yn gweithio fel daearyddiaethau lefel uwch?<br><br>Adborth o'r ystafelloedd trafod:<br><br>Awgrymwyd bod y canlynol ar goll: ardaloedd heddluoedd, clystyrau meddygon teulu, ardaloedd byrddau gwasanaethau cyhoeddus. Nid oedd yn amlwg beth oedd ardaloedd APADGOS ac a oeddent yn dyblygu daearyddiaeth arall, ond maen bosibl eu bod yn ymwneud ag ardaloedd consortia rhanbarthol ysgolion.<br><br>Gofynnodd SH, os nad yw daearyddiaethau yn cael eu cynnal yn weithredol, a ydynt yn cael eu harchifo mewn rhyw ffordd neu'i gilydd fel bod cofnod o hyd eu bod yn bodoli? Cadarnhaodd JM eu bod yn cael eu harchifo.<br><br>**Rhan 3: Arddangos nodweddion newydd MapDataCymru**<br><br>Gwnaeth DR arddangos nodweddion newydd MapDataCymru, gan gynnwys y gallu i gynnal arolygon.<br><br>Gofynnodd LWM a oedd modd rhoi eu logo eu hunain ar y map. Atebodd DR ei fod yn rhywbeth yr hoffent allu ei wneud, yn ogystal â mewnblannu MapDataCymru ar dudalennau gwe eraill.<br><br>Holodd ES ynglŷn â hygyrchedd MapDataCymru. Atebodd DR ei bod mor hygyrch â phosibl a'u bod wedi bod yn gweithio gyda'r Arolwg Ordnans i greu fersiwn ddwyieithog. | |
| **8** | **Unrhyw Fater Arall** | |
| | Os bydd gennych unrhyw syniadau ynglŷn ag eitemau i'w cynnwys ar yr agenda yn y dyfodol cofiwch e-bostio KASevents@gov.wales<br><br>Mae syniadau ar gyfer eitemau i'w cynnwys ar yr agenda yn y dyfodol a drafodwyd yn y cyfarfod hwn yn cynnwys:<br>- Ymgynghoriad y SYG ar ystadegau poblogaeth a mudo<br>- MALIC<br>- Yr arolwg o'r llafurlu wedi'i drawsnewid.<br><br>Cyfarfod nesaf 15 Hydref 2023. | |

| | **Camau gweithredu** | |
|---|---|---|
| 1 | Yr Ysgrifenyddiaeth i ystyried cynnwys yr arolwg o'r llafurlu wedi'i drawsnewid fel eitem yn yr agenda yn y dyfodol. | Ysgrifenyddiaeth |
| 2 | Gofynnodd GW i dîm daearyddiaeth y SYG roi diweddariad ar statws y dosbarthiad gwledig/trefol ac ar ddaearyddiaethau sy'n ardaloedd adeiledig. | Gerald Williams, SYG |
| 3 | Yr Ysgrifenyddiaeth i drefnu sesiwn drafod ym mis Gorffennaf ar yr ymgynghoriad ar ystadegau poblogaeth. | Ysgrifenyddiaeth |
| 4 | Yr Ysgrifenyddiaeth i ychwanegu'r ymgynghoriad ar ystadegau poblogaeth ar agenda mis Hydref. | Ysgrifenyddiaeth |
| 5 | SH i roi diweddariad ar argaeledd data ar danwydd tlodi ar lefel daearyddiaethau bach. | Steph Howarth, Llywodraeth Cymru |